

Yr Eglwys

Darllen: Mathew 21:13

Onid ydi hi'n hen bryd i ni ail ystyried beth yw eglwys? Erbyn heddiw, mae'n heglwysi yn mynd yn fwy tebyg i glybiau crefyddol. Mae aelodau'r clwb yn cyfarfod yn adeilad y clwb, ar un diwrnod o'r wythnos fel arfer. Maen nhw'n talu tâl aelodaeth, a hynny gan amlaf i gynnal yr adeilad. Rhoddir sylw mawr i'r adeilad am fod hwn yn arwydd o ba fath glwb sy'n cyfarfod yno – Clwb y Presbyteriaid, y Bedyddwyr, y Methodistiaid, yr Annibynwyr, a'r Anglicaniaid. O dro i dro, bydd aelodau un o'r clybiau hyn yn ymweld â chlwb arall. Yn ystod mis Awst, bydd y clybiau'n pwyso'n drwm ar ei gilydd ac yn gwahodd arweinydd o glwb sy'n bell i ffwrdd i gynnal y gweithgareddau. Mae plant yr aelodau yn cael eu dwyn i fyny yn egwyddorion y clwb. Ai dyna yw eglwys?

Yn y Testament Newydd, pobl yw'r eglwys, nid adeilad. Does gennym ni ddim sôn am adeiladau penodol wedi eu neilltuo ar gyfer eglwysi tan y drydedd ganrif. Pobl yn cydgyfarfod mewn ymateb i alwad Duw, ac yn enw Iesu Grist yw eglwys. Yn hanes yr Eglwys Fore, yn Llyfr yr Actau, mae'r bobl yn cyfarfod ar aelwydydd, fel y gwelwn yn Actau 12. Ar ôl i Pedr gael ei ryddhau o'r carchar, mae'n mynd ar ei union 'i dŷ Mair, mam Ioan a gyfenwid Marc, lle'r oedd cryn nifer wedi ymgasglu ac yn gweddïo' (Actau 12:12). Yno roedd yr eglwys yn cyfarfod, ac yno at ei bobl ei hun yr aeth Pedr. Rwy'n cofio mynd i gynnal oedfa bnawn Sul yng nghapel Nant y Benglog, yn Nyffryn Ogwen. Pan gyrhaeddais yno, roedd y criw ffyddlon yn sefyll y tu allan gan fod gwraig y tŷ capel wedi mynd i ffwrdd ac wedi anghofio agor y capel. Awgrymodd un aelod ein bod yn mynd i'w gartref mewn fferm gyfagos i gynnal yr oedfa. Anghofia'i byth y fath agosatrwydd a chynhesrwydd a deimlwyd ar yr aelwyd honno. Os bydd y capeli'n cau i gyd, mae lle ar yr aelwyd o hyd.

Cynulliad o bobl wedi'u galw gan Dduw yw eglwys, a dyna'r gwahaniaeth rhyngddi ag unrhyw glwb. Duw sy'n galw, a ninnau'n ymateb i'w alwad.

Pobl wedi'u galw yw aelodau'r cynulliad. Mae'r cysyniad hwn yn ein sobri. Mae ein hagwedd ffwrdd-â-hi yn dibrisio ein galwad. A chael eu galw i addoli Duw y mae Cristnogion ym mhob oes. Ac mae'n rhaid troi'r addoliad yn weithred yn ein hymwneud â phobl. Nid byw er ei mwyn ei hunan y mae'r eglwys, ond byw er mwyn eraill. Onid byw er mwyn ei hunan y mae'r eglwys heddiw? Beth yw consyrn mwyaf yr eglwys heddiw? Yr adeiladau. Rydyn ni'n byw er mwyn yr adeilad. Yn aml iawn, byddaf yn clywed pobl yn dweud, 'Wnaiff drws yr hen gapel bach byth gau tra bydda i fyw. Mae'r adeilad mor gysegredig, mi fu mam a nhad yn aelodau yma ar hyd eu hoes.' Tra bydda i fyw - dim llawer o ots wedyn! Oes yn wir, mae'n rhaid ail ystyried yn ddwys iawn. Cynulliad o bobl wedi'u galw gan Dduw i addoli ac i weithredu yn y byd. Dyna yw eglwys.

Myfyrdod pellach:

Beth yw 'addoli' yn eich eglwys chi?

Ai clwb crefyddol yw eich eglwys chi?